Memorandwm Esboniadol ynghylch Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2007

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Materion Gwledig ac fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1. **Disgrifiad**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 ("y prif Orchymyn"), sy'n cynnwys mesurau i atal plâu ac afiechydon niweidiol rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu. Mae'n gweithredu Cyfarwyddebau'r Cyngor 2006/56/EC a 2006/63/EC ac yn cywiro mân wallau yn y prif Orchymyn.

2. **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath yn codi. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu rhwymedigaethau cyfarwyddol y Gymuned drwy Gyfarwyddebau'r Comisiwn 2006/56/EC a 2006/63/EC, sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 93/85/EEC a 98/57/EC.

3. **Y Cefndir Deddfwriaethol**

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2007 yn gweithredu Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2006/56/EC a 2006/63/EC ac yn diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 93/85/EEC a 98/57/EC. Mae Cyfarwyddebau 93/85/EEC a 98/57/EC yn nodi mesurau i'w cymryd mewn Aelod-wladwriaethau yn erbyn pydredd cylch tatws (Clavibacter michiganensis) a phydredd coch tatws (Ralstonia solanacearum). Gweithredir y Cyfarwyddebau hyn yng Nghymru gan Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006. Mae deddfwriaeth debyg, ar wahân ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael ei wneud o dan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967.

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Cyfarwyddebau 2006/56/EC and 2006/63/EC yn diweddaru'r gofynion yn yr Atodiadau i Gyfarwyddebau 93/85 a 98/57sy'n nodi mesurau ar gyfer gwaredu deunydd halogedig a deunydd halogedig posibl, a mesurau rheoli mewn mannau cynhyrchu halogedig, gan gynnwys mewn parthau darnodi. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu datblygiadau o safbwynt dealltwriaeth ynghylch bioleg yr organeddau, a'r gweithdrefnau ar gyfer eu canfod a'u hadnabod, yn ogystal â phrofiad ymarferol o reoli afiechydon.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad weithredu'r Cyfarwyddebau hyn gan y Cyngor cyn gynted ac y bo'n ymarferol bosibl er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu yn erbyn pydredd cylch tatws a phydredd coch tatws ledled yr UE. Cyngor yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, sy'n gweithredu yng Nghymru ar ran Llywodraeth y Cynulliad, yw y byddai peidio â gweithredu'r diwygiadau hyn yn golygu y byddai mwy o fygythiad i iechyd planhigion yng Nghymru.

5. Gweithredu

Bwriedir i'r Gorchymyn Diwygio hwn ddod i rym ar 10 Hydref 2007. Gweithredwyd deddfwriaeth debyg yn Lloegr ar 1 Awst 2007 ac mae'n cael ei hystyried yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Ni ddisgwylir y byddai gweithredu'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol yng Nghymru ac eithrio cyflwyno mesurau gwell i reoli afiechydon. Er hynny, byddai methu â gweithredu'r diwygiadau hyn yn arwain at anawsterau gweithredol i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, oherwydd byddai angen iddi ddefnyddio cyfundrefnau rheoleiddio gwahanol yng Nghymru a Lloegr wrth ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn.

6. Ymgynghori

Ni farnwyd bod angen ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y Gorchymyn Diwygio hwn. Mae'r diwygiadau'n gweithredu Cyfarwyddebau 2006/56/EC a 2006/63/EC ar bydredd cylch tatws a phydredd coch tatws. Mae sefydliadau masnachu tatws yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu hysbysu eisoes ac nid ydynt wedi codi unrhyw bryderon am y mân newidiadau a orfodir gan y Cyfarwyddebau a'r ddeddfwriaeth ddomestig ddilynol. At hynny, o ystyried graddfa gyfyngedig y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru, a'r sector tatws yn benodol, nid oes gan y ddeddfwriaeth gynulleidfa darged fawr. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad penodol naill ai yn Lloegr nac yn yr Alban.

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol, gan nad yw'r Gorchymyn Diwygio yn effeithio o gwbl ar gostau busnesau, awdurdodau lleol na'r sector gwirfoddol.